Benthyciadau pythefnos	25c am bob diwrnod hwyr
Benthyciadau wythnos	50c am bob diwrnod hwyr
Benthyciadau diwrnod	£1 am bob diwrnod hwyr
Benthyciad cyfyngedig	£1 am bob awr hwyr

Cadw llyfrau
Defnyddiwch Voyager i wneud ceisiadau am ddeunydd sydd ar fenthyg i rywun arall. Byddwn yn eich hysbysu pan fydd y deunydd ar gael.

Mae gwasanaeth negesydd ar gael ar gyfer deunyddiau sydd yn un o'r Llyfrgelloedd nad ydynt ar safle Parc Cathays neu sydd yn un o'r storfeydd llyfrgell nad ydynt ar y campws. Gofynnwch am fanylion.

Gwasanaeth benthyg rhwng llyfrgelloedd

Defnyddiwch y gwasanaeth benthyg i gael llyfrau ac erthyglau o gyfnodolion nad ydynt ar gael yn lleol yn Llyfrgelloedd Prifysgol Caerdydd. Bydd eich ysgol yn talu am y gwasanaeth hwn ac mae'n rhaid awdurdodi ceisiadau. Gofynnwch am fanylion.

Cyfleusterau cyfrifiadurol

Gallwch ddefnyddio ein cyfrifiaduron ar y rhwydwaith, sydd wedi'u cysylltu ag argraffwyr, i ddefnyddio cronfeydd data electronig a meddalwedd, yn cynnwys y Rhyngrwyd, prosesu geiriau, ebost a graffeg.

Mae ystafelloedd cyfrifiaduron ar gael ym mhob rhan o'r campws ac mae rhai ar agor 24 awr y dydd.

Mae gwasanaeth di-wifr ar gael yn y Llyfrgell. Gofynnwch am fanylion.

Llungopïo

Mae llungopiwyr hunan-wasanaeth ar bob llawr. Yn ogystal, mae peiriannau darllen-argraffu ar gael sy'n gallu argraffu o ficroffilm a microfish.

Mae'r Gwasanaethau Graffeg ar y llawr gwaelod hefyd yn cynnig argraffu lliw, llungopïo a chyfleusterau sganio delweddau. Mae peiriant ffacs, offer ysgrifennu a gwasanaeth copïo a weithredir gan staff ar gael hefyd. Mae derbynfa'r Gwasanaethau Graffeg ar agor o 08.45 i 17.00 dydd Llun i ddydd Gwener.

Astudio mewn grwpiau

Os hoffech chi drafod gwaith gyda chydweithwyr, mae ystafelloedd ar gael y gall grwpiau bach eu harchebu. Gofynnwch am fanylion.

Defnyddwyr ag anableddau

Rydyn ni'n ceisio gwneud ein cyfleusterau mor hygyrch â phosib i ddefnyddwyr ag anableddau. Mae cyfrifiaduron gyda meddalwedd arbenigol ar gael. Mae croeso i chi ofyn os oes angen cymorth o unrhyw fath arnoch. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: *www.caerdydd.ac.uk/insrv/fordisabledusers*

Aelodaeth

Gall holl aelodau staff a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ddefnyddio'r Llyfrgell.

Mae cynlluniau aelodaeth allanol ar gael.

Amgylchedd astudio

Nod y Llyfrgell yw cynnig man sy'n addas ar gyfer astudio i bawb sy'n ei ddefnyddio. Peidiwch ag amharu ar ddefnyddwyr eraill trwy siarad yn uchel, gwrando ar gerddoriaeth neu ddefnyddio eich ffôn symudol. Ni chaniateir bwyta nac yfed yn y Llyfrgell.

ASS-073-S-2 / Gorffennaf 2007 / DM

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Llyfrgell y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol

Llyfrgell y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol
Prifysgol Caerdydd
Blwch Post 430
Caerdydd CF24 0DE

Ffôn (mewnol): 74818
Ffôn (allanol): 029 2087 4818
Ffacs: 029 2037 1921
Ebost: asslliby@caerdydd.ac.uk

Oriau Agor

Dydd Llun i ddydd Gwener:	08.45 i 21.30
Dydd Sadwrn:	10.00 i 17.30
Dydd Sul:	12.00 i 17.00

Nodwch fod yr oriau agor yn amrywio yn ystod cyfnodau gwyliau ac ar wyliau tymhorol a gwyliau banc.
Ewch i'n gwefan am fanylion:
www.cardiff.ac.uk/insrv/opening

Gofynnwch i'r staff am gymorth i ddefnyddio'r Llyfrgell neu gyngor ar chwilio am wybodaeth. Rydyn ni yma i'ch helpu chi!

Mae'r canllaw hwn ar gael mewn fformatau eraill hefyd.

information services
gwasanaethau gwybodaeth

Lleoliad

Mae Llyfrgell y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol (ASSL) ar gyffordd Plas y Parc, Heol Corbett a Heol Colum. Mae mynedfa'r Llyfrgell ar ben y llwybr o'r brif glwyd ar Heol Corbett.

Casgliadau

Mae'r Llyfrgell yn darparu gwasanaethau i'r Ysgolion canlynol:

- Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth (ENCAP)
- Astudiaethau Ewropeaidd (EUROS)
- Hanes ac Archaeoleg (HISAR)
- Seicoleg (PSYCH)
- Astudiaethau Crefyddol a Diwinyddol (RELIG)
- Gwyddorau Cymdeithasol (SOCSI)
- Cymraeg (WELSH)

Dod o hyd i wybodaeth

Llyfrau
Mae'r llyfrau wedi'u gosod ar y silffoedd fesul pwnc. Mae pob llyfr wedi'i labelu gyda rhif dosbarthiad ei bwnc ac wedi'i ffeilio ar y silffoedd yn y drefn hon.

Defnyddiwch gatalog Voyager y llyfrgell i:

- Ddod o hyd i eitemau yn unrhyw un o Lyfrgelloedd Prifysgol Caerdydd yn ogystal â thros 20 o lyfrgelloedd Ymddiriedolaeth GIG / Canolfan Ôl-raddedig eraill ledled Cymru
- Gweld a yw'r eitemau ar fenthyg
- Gwneud cais am eitemau sydd ar fenthyg
- Adnewyddu cyfnod benthyg yr eitemau rydych chi wedi'u benthyg
- Edrych ar restr o'r eitemau rydych chi wedi'u benthyg neu gwneud cais amdanynt

Gallwch ddefnyddio Voyager ar gyfrifiaduron y llyfrgell neu ar unrhyw gyfrifiadur â mynediad i'r rhyngrwyd yn: *http://llyfrgell.caerdydd.ac.uk*

Mae taflen ar wahân yn rhoi cyfarwyddiadau manwl am ddefnyddio Voyager.

Cyfnodolion
Mae'r cyfnodolion wedi'u gosod ar y silffoedd yn nhrefn yr wyddor yn ôl eu teitlau.

Yn ychwanegol, mae llawer o gylchgronau ar gael yn electronig. Gallwch gyrchu'r rhain o Voyager ar *http://library.cardiff.ac.uk* neu ar *http://ejournals.cardiff.ac.uk*

Cronfeydd Data
Mae Prifysgol Caerdydd yn tanysgrifio i amrywiaeth o **gronfeydd data** sy'n gallu eich cynorthwyo i ddod o hyd i erthyglau mewn cyfnodolion a gwybodaeth arall yn ymwneud â'ch pwnc.

Am restr lawn o'r cronfeydd data, ewch i *www.caerdydd.ac.uk/insrv/eresources* a chliciwch ar *Databases*.

Gellid cyrchu rhai cronfeydd data trwy ddefnyddio eich cyfrinair Prifysgol Caerdydd. Am gronfeydd data penodol mae angen cyfrinair ac enw defnyddiwr.

Ystafell Ymchwil y Casgliadau Arbennig

Mae'r Ystafell Ymchwil y Casgliadau Arbennig (SCOLAR) ar y llawr gwaelod isaf, ac mae yno lyfrau prin, llawysgrifau gwreiddiol a deunyddiau archif eraill. Mae mynegai, catalogau a deunydd llyfryddiaethol ar gael.

Benthyg deunydd

Eich Cerdyn Adnabod Prifysgol
Cadwch eich cerdyn Prifysgol gyda chi bob amser pan fyddwch chi'n ymweld â'r Llyfrgell. Bydd ei angen arnoch hefyd pan fyddwch chi'n benthyg deunydd.

Chi sy'n gyfrifol am yr holl ddeunyddiau sy'n cael eu benthyg gyda'ch cerdyn chi felly peidiwch â'i roi i unrhyw un arall. Cadwch eich cerdyn yn ddiogel a rhowch wybod i ni ar unwaith os byddwch chi'n ei golli.

Sawl eitem allwch chi ei fenthyg?

	Cyfanswm
Israddedigion llawn amser	12
ôl-raddedigion a addysgir	15
ôl-raddedigion ymchwil	25
Staff	32

Nodwch fod y cyfnodau benthyg yn amrywio. Efallai y bydd eitemau y mae mwy o alw amdanynt ar gael am gyfnodau byrrach yn unig.

Adnewyddu
Yn ystod y sesiwn academaidd gallwch adnewyddu eich benthyciadau am gyfnod pellach oni bai bod defnyddiwr arall wedi gwneud cais amdano.

Defnyddiwch y dewis *Fy Nghyfrif* ar Voyager, ffoniwch y Llyfrgell neu dewch i'r Ddesg Fenthyciadau i adnewyddu.

Dychweliadau
Er lles pobl eraill, dylech ddychwelyd eich benthyciadau erbyn y dyddiad a roddir i chi pan fyddwch chi'n ei fenthyg neu ei adnewyddu.

Bydd rhaid talu dirwy ar ddeunydd sy'n cael ei ddychwelyd yn hwyr.

Dirwyon
Os oes gennych ddirwyon neu eitemau hwyr efallai na fyddwch chi'n cael benthyg tan i'r eitemau hwyr gael eu dychwelyd ac y byddwch wedi talu'r dirwyon (trosodd).